

Ei dangnefedd ef, fy nhangnefedd i

“Yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i chwi, ynof fi, gael tangnefedd. Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu’r byd.” (adn. 33)

Beth am ddarllen Ioan 16:17–33 ac yna myfyrio

Dyna’r fath gysur mae’r geiriau yma o eiddo Iesu yn ei roi. Mynegodd Martin Luther y teimlad yma i’w gyfaill a’i gyd-ddiwygiwr, Philip Melancthon: “Mae dywediad fel hwn yn haeddu’i gario o Rufain i Jerwsalem ar ein gliniau!” Mae’n rhyfeddol bod tangnefedd Iesu yn gallu cyd-fyw â phwysau a hyd yn oed erledigaeth. Mae Ei dangnefedd yn deillio o’i fuddugoliaeth dros bechod a drwg – mae Iesu eisoes wedi gorchfygu’r byd!

Unwaith eto, sylweddolwn nad ydy Iesu’n sôn am ryw deimlad da sydd i’w fwynhau dim ond pan na fydd unrhyw ofid. Mae’r tangnefedd yma i’w brofi yng nghanol y frwydr. Gallwn brofi tawelwch yng nghanol treialon bywyd, llonyddwch yng nghanol argyfyngau. Mae’r fath dangnefedd yn ffrwyth ‘gwroldeb’ (adn. 33, yn cael ei gyfieithu fel ‘codwch eich calon’ yn Y Beibl Cymraeg Newydd), yr union beth yr anogodd Iesu ei ddisgyblion i’w ddangos yng nghanol storm Galilea (gweler Marc 4:35–41). Dydy Iesu ddim yn addo gwely esmwyth i’w ddilynwyr. Yn wir, mae’n rhag-weld helbulon o’n blaenau; mae gwrthdaro yn anochel os dilynwn ni ef. Ond oherwydd ei fod ef wedi concro’r byd, gallwn ninnau ymwroli. Gan ei fod ef yn fuddugol, gallwn ninnau fod yn fuddugol hefyd. Yng Nghrist mae gennym ei dangnefedd yn llifo i mewn i’n calonau.

Sylwodd teithiwr yn Arizona ar nyth aderyn wedi’i gafnu o goeden gactws bigog. Roedd y nyth wedi’i amgylchynu â drain ond ymysg y drain roedd aderyn wedi cafnu lle diogel a thawel. Wrth edrych ar y nyth, dywedodd wrtho’i hun: “Yng nghanol amgylchedd pigog, gallaf ddod o hyd i’r un graddau o dangnefedd ag a welwyd yn Iesu yng nghanol ei fyd pigog. Ei dangnefedd ef ydy fy nhangnefedd i”. Pa mor anodd neu bigog bynnag y gall amgylchiadau fod, mae presenoldeb a nerth Iesu yn ein galluogi ni i gadw’n ddi-gynnwrf.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Lef. 26: 6–13; Effes. 6: 10–18; I Ioan 2: 12–14

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydy swyddogaeth ‘efengyl tangnefedd’ yn arfogaeth Duw?
2. At bwy oedd Ioan yn ysgrifennu a pham?

Gweddi

O Dad, dw i mor ddiolchgar bod y tangnefedd oedd yn llifo yng nghalon dy Fab yn gallu bod yn eiddo i mi hefyd. Oherwydd mod i ynddo ef ac yntau ynof innau, gallaf fod yn gwbl rydd o gynnwrf. Dw i’n hynod o ddiolchgar. Amen.